

Fy Iechyd Ar-lein – Mynediad at Gofnod Meddygol Meddyg Teulu

Cwestiynau Cyffredin

Mai 2019

Pam cael mynediad ar-lein at eich Cofnod Meddyg Teulu?

Gallwch chwarae rôl weithredol yn eich gofal iechyd eich hun, a datblygu perthynas dda â'ch meddyg teulu a'ch meddygfa.

Mae gwybodaeth am eich brechiadau neu'ch alergeddau ar gael ar unwaith, sy'n arbed amser gwerthfawr. Nid oes angen ffonio na theithio i'r feddygfa, ac efallai y gallwch chwilio am y wybodaeth eich hun.

Os oes gennych gyflwr iechyd tymor hir, efallai y bydd cael mynediad ar-lein at wybodaeth fel canlyniadau pwysedd gwaed o fudd i chi trwy helpu i fonitro a rheoli eich cyflwr.

Efallai y bydd gallu edrych ar eich cofnodion ar-lein yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich apwyntiad nesaf gyda'ch meddyg teulu neu arbenigwr, ac yn amlygu a oes unrhyw beth y gallai fod angen i chi ei drafod. Gall eich helpu i gofio a deall trafodaethau gyda'ch meddyg teulu efallai y byddech yn eu hanghofio fel arall.

A yw pob meddygfa'n cynnig yr un gwasanaeth mynediad at gofnodion meddygol?

Bydd y gwasanaeth sydd ar gael i chi yn dibynnu ar beth mae eich meddygfa'n ei gynnig, a'r system gyfrifiadurol y mae eich meddygfa'n ei defnyddio. Bydd y math o wybodaeth a arddangosir yn amrywio. Gallwch ofyn i'ch meddygfa beth maen nhw'n ei gynnig. Gallwch hefyd wirio pa wasanaethau y mae meddygfeydd yn eu cynnig trwy edrych ar wefan [Gwasanaethau Lleol Galw Iechyd Cymru](#).

Beth os nad wyf yn deall y termau cod?

Efallai y bydd rhai rhannau o'ch cofnod meddyg teulu yn cynnwys cod, a ddefnyddir yn y maes meddygol i gynrychioli termau a gweithdrefnau penodol. Gan ddibynnu ar y system y mae eich meddygfa'n ei defnyddio, efallai y gallwch glicio ar fotymau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phroblem a allai gynnig esboniad manwl. Gofynnwch os nad ydych chi'n deall.

Hoffwn gael mynediad ar-lein at fy nghofnod manwl, ond nid wyf yn dda ar y rhyngwrwd – o ble alla' i gael help?

Mae nifer o wahanol wasanaethau ar gael ar gyfer pobl sydd angen hyfforddiant ar y rhyngwyd, fel [Canolfannau Ar-lein y DU](#). Caiff rhai eraill eu darparu gan awdurdodau lleol, colegau ac elusennau. Y lle gorau i ddechrau fyddai eich [llyfrgell leol](#).

Beth os bydda' i'n gweld camgymeriad ar fy nghofnod?

Os byddwch chi'n canfod unrhyw wallau, bydd angen i chi roi gwybod i'ch meddygfa. Os byddwch chi'n gweld gwybodaeth nad yw'n ymwneud â chi, dylech allgofnodi o Fy Iechyd Ar-lein ar unwaith, a rhoi gwybod i'ch meddygfa.

Beth os bydda' i'n gwneud llastr o bethau?

Ni waeth beth fyddwch chi'n ei glicio, ni allwch newid cynnwys eich cofnod. Mae'n gofnod darllen yn unig.

Hoffwn gael mynediad ar-lein at fy nghofnod meddygol – beth sydd angen i mi ei wneud?

Gwiriwch a yw'ch meddygfa'n cynnig y gwasanaeth i ddechrau. Yna, trafodwch y gwasanaeth gyda'ch meddygfa neu darllenwch y daflen Fy Iechyd Ar-lein, a phenderfynwch a yw mynediad ar-lein yn rhywbeth yr hoffech ei gael. Os byddwch eisiau mynd yn eich blaen, llenwch y ffurflen gais a ddarperir gan eich meddygfa. Cyflwynwch y ffurflen wedi'i llenwi, ynghyd â gwybodaeth/dogfennau i brofi pwy ydych chi, i'ch meddygfa. Sylwer, er mwyn gwirio pwy ydych chi, rhaid i gleifion sy'n gwneud cais i weld eu cofnodion ddod â'u dogfennau'n bersonol. Caiff eich cais ei ystyried yn unol â pholisi'r feddygfa.

Mae ffurflenni cais ar gael o'ch meddygfa.